# Disgrifiad Swydd - CYFREDOL

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Llesiant CBSP ac Ardal Pen-y-bont ar Ogwr o JHB CTM |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion/Ardal Pen-y-bont ar Ogwr BIP CTM |
| **SWYDD:** | Rheolwr Asesu Arbenigol Integredig |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR15 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Integredig - Tîm Adnoddau Cymunedol |
| **YN ATEBOL YN BROFFESIYNOL I'R:** | Pennaeth Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol - BIP CTM |

**DIBEN Y SWYDD:**

Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol i'r Timau Asesu Arbenigol, gan gynnwys y Tîm Asesu ac Ailalluogi Tymor Byr (STAR) amlddisgyblaethol a'r Tîm Synhwyraidd yn y Tîm Adnoddau Cymunedol. Bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at arweinyddiaeth broffesiynol therapi Galwedigaethau yn y Rhwydweithiau Clwstwr a rheoli gwasanaethau offer cymunedol ar draws gwasanaethau cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr. Cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu strategol y Timau Asesu Arbenigol, gan sicrhau bod y safonau uchaf o wasanaeth yn cael eu darparu, ar gyfer mynd ati'n effeithiol i ddarparu asesiadau, adsefydlu, offer a gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl.

Rheoli ac arwain y Timau Asesu Arbenigol a'r Gwasanaethau Offer ar gyfer gwasanaethau cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr gan sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn ymatebol a bod y gwasanaethau yn unol â'r agenda gofal darbodus, gan ddarparu buddiannau cost-effeithiolrwydd. Bydd y swydd hon yn cynorthwyo ac yn cael rhai cyfrifoldebau dirprwyedig ar gyfer Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Integredig y Tîm Adnoddau Cymunedol, a rhywfaint o gyfrifoldeb am ddarparu trefniadau cyflenwi ar gyfer rheolwyr eraill yn y Tîm Adnoddau Cymunedol.

Cyfrannu at ddatblygiad strategol y gwasanaethau hyn a dull integredig o ran Therapi Galwedigaethol yn y gymuned, gan weithio gyda'r Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol Integredig i ddatblygu'n barhaus er mwyn bodloni polisi ac anghenion lleol sy'n newid.

Bydd y Timau Asesu Arbenigol yn darparu ymyriadau cymesur, cynnar ac adsefydlu yn y gwasanaethau Synhwyraidd a STAR er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i unigolion. A bydd y gwasanaeth therapi galwedigaethol cymunedol yn y rhwydweithiau cymunedol yn gweithio mewn partneriaeth i addasu amgylcheddau pobl anabl er mwyn iddynt allu aros yn eu cartrefi eu hunain a chyflawni eu gweithgareddau dewisol yn ddiogel; lleihau'r angen am becynnau gofal cymhleth neu gostus neu fynediad i ofal preswyl. Bydd yr ymyriadau hyn yn hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth, yn atal dirywiad ac yn osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty neu i ofal hirdymor.

Bydd y Rheolwr Asesu Arbenigol Integredig yn hyrwyddo ac yn cynnal annibyniaeth, yn darparu dewis a rheolaeth i ddinasyddion, gan eu galluogi i fyw'n hyderus gartref, a bydd yn canolbwyntio ar bobl hŷn, materion eiddilwch, a phobl ag anableddau corfforol.

Bydd y gweithiwr proffesiynol a benodir i'r swydd yn Therapydd Galwedigaethol sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a bydd yn meddu ar gyfrifoldebau gweithredol a chyflawni ar gyfer Timau Asesu Arbenigol yn ogystal â darparu gwasanaethau offer cymunedol.

Mae gwasanaethau STAR yn cynnwys y canlynol: Teleofal, asesu ac ailalluogi Tymor Byr, gan gynnwys yr uned Ailalluogi, ICES, a bydd hefyd yn cyfrannu at arweinyddiaeth broffesiynol Therapi Galwedigaethol Cymunedol yn y Rhwydweithiau Cymunedol. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am gyfleuster asesu ac arddangos Trem y Môr

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol ac yn atebol am gyllidebau dangosol sy'n gysylltiedig â'r Timau Asesu Arbenigol a'u perfformiad.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Arwain, rheoli a datblygu'n strategol y Timau Asesu Arbenigol a'r gwasanaethau offer ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan sicrhau'r safonau gwasanaeth gorau posibl wrth ddarparu asesiadau, adsefydlu, offer a gwasanaeth gofal cymdeithasol yn effeithiol i bobl.

- Bod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a'r rheoliadau ymarfer proffesiynol a llywodraethu wrth ddarparu a chyflenwi gwasanaethau asesu arbenigol.

- Bod yn gyfrifol am ddarpariaeth weithredol effeithiol, perfformiad, datblygu, a gwelliant parhaus y gwasanaethau Synhwyraidd a Therapi Galwedigaethol Cymunedol ac offer, yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r ymarfer gorau ac yn unol â'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

- Bod yn gyfrifol am gytuno ar adnoddau a chyllidebau a'u defnyddio'n effeithiol fel y dirprwyir gan y rheolwr ICS yn unol â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a rhoi cymorth priodol, gan ddyrannu adnoddau yn ôl y gofyn.

- Cyfrannu at ddatblygiad parhaus gwasanaethau STAR a gwasanaethau rhwydwaith clwstwr gan gynnwys darparu gwasanaeth 7 diwrnod fel y bo'n briodol

- Darparu cyngor Therapi Galwedigaethol proffesiynol i'r Tîm Adnoddau Cymunedol a Rheolwyr Rhwydwaith Cymunedol Integredig a'u Timau, y Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol Integredig, y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Pennaeth Gwasanaethau Nyrsio a Chymunedol yn ôl yr angen.

- Darparu amcanion clir i staff proffesiynol, cydlynwyr a staff cymorth yn STAR a gwasanaethau therapi galwedigaethol y rhwydweithiau cymunedol gan sicrhau bod cynlluniau datblygu unigol yn cael symud ymlaen.

- Defnyddio a dadansoddi gwybodaeth perfformiad am ofal integredig, i hysbysu'r rheolwr ICS am opsiynau gwasanaeth a mynd i'r afael â risgiau i annibyniaeth ac anghenion gofal.

- Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fabwysiadu dull hyblyg o ran dyletswyddau'r swydd; gan ystyried anghenion a datblygiad newidiol y Tîm Adnoddau Cymunedol, y Rhwydweithiau Clwstwr a newidiadau o ran darpariaeth gwasanaeth Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**
Deall y cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch o fewn rôl rheolwr a chyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch personol yn HASAWA 1974.

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth Cyfle Cyfartal ac Arfer Gorau.

**DYDDIAD ADOLYGU/HAWL I AMRYWIO**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person

## Rheolwr Asesu Arbenigol Integredig

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • BSc Anrh mewn Therapi Galwedigaethol neu gyfwerth.<br>• Cofrestriad dilys fel Therapydd Galwedigaethol sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.<br>• Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus/hyfforddiant ôl-gymhwyso.<br>• Cymhwyster rheoli<br>• Cymhwyster Hyfforddi | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio mewn gwasanaeth integredig.<br>• Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu ymarfer ym maes gwasanaeth oedolion ag anghenion synhwyraidd<br>.<br>• Profiad ôl-gymhwyso sylweddol o asesu ac ymyrraeth Therapi Galwedigaethol cymhleth gyda phobl eiddil a phobl ag anableddau.<br>• Meddu ar lefel uwch o wybodaeth am ymarfer gwrthwahaniaethol, damcaniaethau grymuso a'u | <br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cymhwyso, a'r gallu i arfarnu'r rhain yn feirniadol.<br><br>• Profiad o hyfforddi, goruchwylio a/neu reoli staff.<br><br>• Gwybodaeth am bolisi presennol, canllawiau statudol a'r gyfraith wrth ddarparu gwasanaethau Therapi Galwedigaethol ac fel y'u cymhwysir ac fel y maent yn effeithio ar bobl eiddil a phobl ag anabledd.<br><br>• Profiad a dealltwriaeth o reoli adnoddau.<br><br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoli perfformiad.<br><br>• Dealltwriaeth o egwyddorion cymorth dan gyfarwyddyd y dinesydd ac ymrwymiad i hyn.<br><br>• Dealltwriaeth o'r ddyletswydd tegwch ar gyfer cyrff cyhoeddus.<br><br>• Profiad o ddatblygu gwasanaethau a/neu reoli prosiectau. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu arwain staff i gyflawni amcanion gwasanaeth/sefydliadol mewn amgylchedd prysur sy'n newid.<br><br>• Gallu blaenoriaethu a chymryd cyfrifoldeb am reoli llwyth gwaith a pherfformiad mewn amgylchedd prysur.<br><br>• Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu ysgogi, hyfforddi a datblygu pob aelod o'r tîm. | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol |
| | • Ymrwymiad i ddulliau amlddisgyblaethol, integredig effeithiol o weithio. | Ydy | |
| | • Yn ymrwymedig i weithio i egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd. | Ydy | |
| | • Gallu gwneud dyfarniadau proffesiynol cadarn gan gynnwys materion risg uchel am ddefnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. | Ydy | |
| | • Gallu rheoli gwrthdaro mewn ffordd gadarnhaol. | | |
| | • Gallu gweithredu'n gorfforaethol gan gynrychioli'r gyfarwyddiaeth a'r ardal mewn amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol ac allanol. | Ydy | |
| | • Ymrwymiad y gellir ei ddangos i gydraddoldeb ac arfer gwrthwahaniaethol a'r gallu i integreiddio polisïau cydraddoldeb i mewn i ddarparu strategaethau a gwasanaeth. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol | Ydy | |
| | • Lefel uchel o gymhwysedd mewn sgiliau TG. | Ydy | |
| | • Gallu dangos sgiliau trefnu da | | |
| | • Gallu meddwl yn glir | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad).** | • Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol<br>• Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol |